OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 58

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2016

## RHAN 10

### Datblygiad Anawdurdodedig

**Barnau sgrinio**

**42.**—(1) Pan ymddengys i'r awdurdod cynllunio lleol y dyroddir hysbysiad gorfodi ganddo neu ar ei ran bod y materion sy'n golygu torri rheol gynllunio yn ddatblygiad Atodlen 1 neu'n cynnwys datblygiad Atodlen 1 neu'n ddatblygiad Atodlen 2 neu'n cynnwys datblygiad Atodlen 2 rhaid iddo, cyn y dyroddir yr hysbysiad gorfodi, fabwysiadu barn sgrinio.

(2) Pan ymddengys i'r awdurdod cynllunio lleol y dyroddir hysbysiad gorfodi ganddo neu ar ei ran bod y materion sy'n golygu torri rheol gynllunio yn ddatblygiad AEA neu'n cynnwys datblygiad AEA, rhaid iddo gyflwyno gyda'r copi o'r hysbysiad gorfodi, hysbysiad ("hysbysiad rheoliad 42") y mae'n rhaid iddo—

(a) cynnwys y farn sgrinio sy'n ofynnol gan baragraff (1) a'r datganiad sy'n ofynnol gan reoliad 4(7); a

(b) ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n rhoi hysbysiad o apêl o dan adran 174 o Ddeddf 1990(**1**) gyflwyno dau gopi o ddatganiad amgylcheddol sy'n ymwneud â'r datblygiad AEA hwnnw i Weinidogion Cymru gyda'r hysbysiad.

(3) Rhaid i'r awdurdod a gyflwynodd hysbysiad rheoliad 42 anfon copi ohono i—

(a) Gweinidogion Cymru;

(b) yr ymgynghoreion; ac

(c) unrhyw berson penodol y mae'r awdurdod yn ymwybodol ohono, sy'n debygol o gael ei effeithio gan, neu sydd â diddordeb yn, yr hysbysiad rheoliad 42.

(4) Pan fo awdurdod yn darparu copi o hysbysiad rheoliad 42 i Weinidogion Cymru, rhaid iddo gynnwys gydag ef restr o'r personau eraill y mae copi o'r hysbysiad wedi ei anfon neu sydd am gael ei anfon iddynt.

(**1**) Diwygiwyd adran 174 gan adran 6(1) o Ddeddf 1991 a pharagraff 22 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno; Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, adran 46; a chan O.S 2003/956. *Gweler* hefyd adran 177(5) a ddiwygiwyd gan baragraff 24 o Atodlen 7 i Ddeddf 1991.